Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 21 Mawrth 2007

Cynigion a Gyflwynwyd ar 14 Mawrth 2007

Dadl Fer

NDM3562 Irene James (Islwyn): Rhodd Llywodraeth Newydd i Gymru.

NDM3557

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

2
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a’r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a’r Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

3
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru)

2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

4
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfiad) (Cymru) (Diwygio) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfiad) (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

NDM3558

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn penderfynu y dylid argymell i'w Mawrhydi yn y Cyngor bod The National Assembly for Wales (Diversion of Functions) Order 2007 [copi Saesneg yn unig] yn cael ei wneud yn unol â pharagraff 31(1)(c) Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gosodwyd y Gorchymyn drafft yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mawrth 2007.

NDM3563

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 14 Mawrth 2007.

NDM3559

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2007 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 14 Mawrth 2007.

Noder: Ni osodir Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau ynghylch y Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).

NDM3560

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru fel y'i nodir yn y Strategaeth Dwristiaeth ddiwygiedig Cyflawni ein Potensial 2006-2013".

Gellir canfod copi o "Cyflawni ein Potensial 2006-2013" ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:

http://new.wales.gov.uk/topics/tourism/283366/?lang=cy

NDM3561

Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2005-2006, a gyhoeddwyd yn unol ag Adran 142 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Gellir canfod yr adroddiad ar y rhyngrwyd trwy ddilyn y ddolen amgaeedig:

http://new.wales.gov.uk/ssiwhome/publications/latestpublications/ChiefInspectorReport2005-2006?lang=cy

Gwelliannau a gyflwynwyd ar 15 Mawrth 2007

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

NDM3560

Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen i gynhyrchu cymaint o incwm â phosibl trwy ddatblygu twristiaeth â gwerth ychwanegol uchel, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd bioamrywiol yr un pryd.

Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol Cymru a'i gwerth fel ased i dwristiaeth yng Nghymru.

NDM3561

Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch nifer annigonol y staff gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio â phlant sydd â chymhwyster cymeradwy neu ofynnol.'

Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am fwy o gysonder wrth gyllido a darparu gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru.'

Gwelliannau a gyflwynwyd ar 16 Mawrth 2007

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

NDM3560

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog hyrwyddo a marchnata treftadaeth ddiwydiannol Cymru.

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo agwedd fwy di-dor rhwng yr Amgueddfa a’r Llyfrgell Genedlaethol a sefydliadau Twristiaeth.

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog yr Eisteddfod Genedlaethol i wneud mwy i ddenu ymwelwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog hyrwyddo a marchnata Cymru fel gwlad "lân a gwyrdd", trwy dynnu sylw at ymrwymiad Cymru i ddatblygu cynaliadwy.

Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn mynegi pryder bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu â chynnwys busnesau twristiaeth hunanarlwyo a osodir yn fasnachol yn ei Chynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach diweddaraf.

Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn mynegi pryder, yng nghyswllt ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar gyfer busnesau twristiaeth hunanarlwyo a osodir yn fasnachol, na wneir unrhyw benderfyniad tan y Trydydd Cynulliad.’

Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i geisio cytundeb gyda Llywodraeth San Steffan na chyflwynir ‘treth gwely’ ar ddarparwyr llety yng Nghymru.’

Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi ei hadolygiad ynghylch swyddogaethau a dyletswyddau’r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol a gyflawnwyd ddiwedd 2006 ac a gwblhawyd ers hynny.’